Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: ATISN26547

2 Chwefror 2026

Annwyl ,

**ATISN 26547**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 6 Ionawr 2026. Roedd eich cais yn gofyn am:

*"- Unrhyw ohebiaeth / dogfennau / cofnodion yn ymwneud â chynigion Comisiynydd y Gymraeg ar y pryd ar gyfer ei Pholisi Gorfodi cyntaf i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Er eglurder, mae hyn yn cynnwys drafftiau o'r Polisi ac unrhyw drafodaethaeth yn ei gylch o fewn y Llywodraeth A rhwng y Comisiynydd a/neu ei swyddogion.*

*-Yr un peth, ynghylch cynigion y Comisiynydd presennol i wneud newidiadau i'r Polisi Gorfodi."*

Rwyf am eich hysbysu bod Llywodraeth Cymru wedi dod o hyd i wybodaeth yr ydym yn ystyried sydd yn dod o dan eithriad adran 42 yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – Braint Broffesiynol Gyfreithiol. Rydym ar hyn o bryd yn asesu'r wybodaeth honno ac yn ystyried a ddylid atal neu atal rannau o'r wybodaeth yna.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto ynghylch y cydbwysedd o ran budd cyhoeddus. Oherwydd yr angen i ystyried, ar sail holl amgylchiadau'r achos, beth yw'r cydbwysedd o ran budd cyhoeddus mewn perthynas â'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, ni fydd modd i Lywodraeth Cymru ymateb i'ch cais o fewn 20 diwrnod gwaith.

Rwy'n gobeithio anfon ateb atoch erbyn 3 Mawrth 2026.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymraeg2050@llyw.cymru

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

**Yn gywir**